










# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

monmouthshire
sir fynwy

**Rheoli Fersiwn**

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 |
| **Diben** | Cyflawni gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| **Perchennog** | Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg |
| **Cymeradwywyd gan** | Cyngor |
| **Dyddiad** | 20/2/2024 |
| **Rhif Fersiwn** | 1.0 |
| **Statws** | Cymeradwywyd |
| **Cyfnod Adolygu** | Blynyddol |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | Gorffennaf 2025 |
| **Ymgynghoriad** | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y cyngor ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024. Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu Pobl graffu datblygu polisi fel rhan o hyn. |

# Ein Sylfaen: Diben a Gwerthoedd

## Ein Diben

***Bydd Sir Fynwy yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas ar gyfer pawb ar bob cam o fywyd.***

Mae'r diben hwn yn ganolog i bopeth a wnawn i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni. Maent yn gosod ein disgwyliadau ar ein cyfer ein hunain, ein gilydd a'r ffordd y cynhaliwn fusnes gyda sefydliadau y gweithiwn gyda nhw ar eich rhan.

Ein gwerthoedd yw:

**Gwaith Tîm**
Mae cydweithredu yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Gwnawn y gorau oll o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Bod yn agored**
Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt.

**Hyblygrwydd**
Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i goleddu syniadau newydd o weithio.

**Tegwch**
Darparwn gyfleoedd i'n holl bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson, gan gydnabod y bydd angen i ni weithiau gymryd camau gweithredu cadarnhaol i oresgyn rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig.

**Caredigrwydd**
Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd y berthynas a'r cysylltiad sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

# Ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28

Mae Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy yn nodi'r pethau y byddwn yn gweithio arnynt yn y tymor canol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gydnaws gyda'r cyfeiriad a nodir yn y cynllun hwn.

## Ein Amcanion:

Bydd Sir Fynwy yn:

- Lle Teg i fyw ynddo lle cafodd effeithiau diffyg cydraddoldeb a thlodi eu gostwng;
- Lle Gwyrdd i fyw a gweithio ynddo, gyda llai o allyriadau carbon, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur;
- Lle Llewyrchus ac uchelgeisiol lle mae canol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle Diogel i fyw lle mae gan bobl gartref a chymuned lle teimlant yn ddiogel;
- Lle Cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo yn rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle Dysgu lle caiff pawb y cyfle i gyflawni eu potensial.

Rydym yn llunio ein gweithgaredd yn y cynllun cymunedol a chorfforaethol yn unol â nodau ac uchelgeisiau ein partneriaid sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Mae hyn yn cynnwys yr Amcanion Cynllun Llesiant ac Egwyddorion Marmot – Adeiladu Gwent Decach.

Amcanion Llesiant:

- Rydym eisiau creu Gwent decach, fwy cyfartal a chynhwysol i bawb.
- Rydym eisiau Gwent parod i'r hinsawdd, lle caiff ein amgylchedd ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fantais i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wyth Egwyddor Marmot:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau.
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
- Sicrhau safon bywyd iach ar gyfer pawb.
- Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy.
- Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd.
- Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'u canlyniadau.
- Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd.

# Y Cyd-destun Cyfreithiol

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu anghyfreithlon yn y gweithle ac yn ehangach yn y gymdeithas. Mae'n cynnwys 9 nodwedd warchodedig: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gredo, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl heb fod yn anabl, yn neilltuol, yr angen i gymryd camau i roi ystyriaeth i ofynion pobl anabl.

Fe wnaeth y Ddeddf hefyd greu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan neu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion heb fod yn rhannu;
- meithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion heb fod yn ei rhannu.

I sicrhau tryloywder, ac i gynorthwyo gyda chyflawni'r ddyletswydd hon, mae Rheoliadau (Dyletswyddau Penodol) 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, a enwir, i gyhoeddi:

- amcanion cydraddoldeb, o leiaf bob pedair blynedd
- gwybodaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio gyda dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

### Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Nod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yw gwella gwneud penderfyniadau strategol cyrff cyhoeddus i roi cefnogaeth well i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn nhermau incwm a/neu statws. Mae'n rhoi gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth galon gwneud penderfyniadau ac yn adeiladu ar y gwaith da mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud.

Mae'r ddyletswydd yn cyfeirio at agweddau 'economaidd' (faint o arian sydd gennych ar gyfer eitemau hanfodol ac eitemau heb fod yn hanfodol) a 'chymdeithasol' (eich cyfleoedd bywyd a lle'r ydych yn byw).

Gall anghydraddoldeb waethygu ffactorau economaidd-gymdeithasol negyddol. Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi amcanion a chamau gweithredu fydd yn helpu i wella deilliannau economaidd-gymdeithasol yn ogystal â ffocws ar grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig.

# Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Ers ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf ar gyfer 2020-2024, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ymrwymiadau pellach y bydd y cynllun yn cyfrannu atynt. Hyn yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, y Cynllun Gweithredu ar Anabledd a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru..

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

I sicrhau sector cyhoeddus gwrth-hiliol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi set glir o nodau a chamau gweithredu y byddant yn eu dilyn i sicrhau gwrth-hiliaeth a'u disgwyliad yw y bydd pob sefydliad sector cyhoeddus yn gwneud yr un fath.

Bydd y gwahanol feysydd yn anelu i:

Arddangos ymroddiad amlwg i wrth-hiliaeth

- newid ymddygiad a gwerthoedd.
- defnyddio gweithredu cadarnhaol
- recriwtio
- cynnydd
- uwch arweinyddiaeth
- cynrychiolaeth bwrdd

Ymwreiddio ffyrdd o weithio i fynd i'r afael â hiliaeth:

- defnyddio pob dull i fynd i'r afael â hiliaeth
- defnyddio data a thystiolaeth
- gwneud polisi
- defnyddio cyllid a grantiau

Sicrhau a darparu gwasanaethau gwrth-hiliol

- ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chymhwysedd yn ein cyfathrebu
- gwasanaethau iaith a dehongli
- gwasanaethau eiriolaeth

Ymwreiddio atebolrwydd ac arddangos cynnydd:

- trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd

## Cynllun Gweithredu LDHTC+

Y camau gweithredu allweddol ar gyfer awdurdodau lleol o fewn y Cynllun Gweithredu LDHTC+ yw:

- Cynnwys cymunedau LHDTC+ wrth gynllunio gwasanaeth cyhoeddus
- Gwasanaethau digartrefedd yn cynnwys anghenion penodol pobl LHDTC+
- Sicrhau fod Cymru Cenedl Noddfa yn parhau'n gynhwysol i bobl LHDTC+
- Sicrhau fod gan bobl LHDTC+ sy'n siarad Cymraeg fynediad i wasanaethau cymorth yn y Gymraeg
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ ym mhob sefydliad sector cyhoeddus

## Cynllun Gweithredu ar Anabledd

Yn 2023 sefydlodd Llywodraeth Cymru y Tasglu Hawliau Anabledd gyda'r nod o ddileu anghydraddoldeb a brofwyd gan bobl anabl mewn cymdeithas. Maent yn datblygu datrysiadau i herio'r rhwystrau strwythurol, ffisegol ac agweddol sy'n wynebu pobl anabl, fydd yn ffurfio'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd newydd i Gymru, y disgwylir y caiff ei gyhoeddi yn 2024.

Y meysydd blaenoriaeth o waith yw:

- ymwreiddio a deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ar draws Cymru)
- mynediad i wasanaethau (yn cynnwys cyfathrebu a thechnoleg)
- byw annibynnol: gofal cymdeithasol
- byw annibynnol: iechyd
- teithio
- cyflogaeth ac incwm
- tai fforddiadwy a hygyrch
- plant a phobl ifanc
- mynediad i gyfiawnder
- llesiant (fel gweithdy)

## Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau

Ym mis Mawrth 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru ar weledigaeth ac egwyddorion ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru. Mae Cymru gyfartal o ran y rhywiau yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal ar gyfer pob menyw, dyn a pherson anneuol. Mae hon yn weledigaeth lle mae'r llywodraeth yn anelu i greu'r amodau ar gyfer canlyniadau cyfartal i bawb.

- Gall pob menyw gael annibyniaeth economaidd a chaiff gwaith ar dâl a di-dâl ei werthfawrogi

- Caiff menywod amrywiol eu cynrychioli'n deg mewn swyddi o ddylanwad a'u grymuso i chwarae rôl ystyrlon mewn cymdeithas
- Mae pob menyw yn rhydd o wahaniaethu ac yn rhydd i fyw eu bywydau fel y dewisant
- Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Caiff strwythurau pŵer presennol sy'n rhoi menywod dan anfantais eu herio
- Mae pob menyw, dyn a pherson anneuol yn mwynhau hawliau a gwarchodaeth cyfartal a chanlyniad cyfartal.

# Tystiolaeth o Anghydraddoldeb

Mae Sir Fynwy yn ddaearyddol fawr o gymharu â llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n lled-wledig ei natur, gydag ychydig dros hanner y boblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol. Caiff y sir yn aml ei hystyried fel un gyfoethog. Fodd bynnag gall ystadegau pennawd guddio yr amrywiaeth sy'n bodoli o fewn ein ffiniau.

Mae llawer o ffynonellau presennol o dystiolaeth a gynhyrchwyd mewn blynyddoedd diweddar a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad y cynllun hwn:

- Yr Asesiad Llesiant a gynhyrchwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent fel rhan o'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adeiladu Gwent Decach: gwella tegwch iechyd a phenderfynyddion iechyd – cynhyrchwyd gan y Sefydliad Tegwch Iechyd
- Yr Asesiad Anghenion Poblogaeth a gynhyrchwyd dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).
- A yw Cymru'n Decach 2023 – dogfen a baratowyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Arolwg Cenedlaethol Cymru

Rydym hefyd wedi archwilio nifer o gynlluniau gweithredu a strategaethau cenedlaethol sy'n anelu i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru[1]
- Cynllun Gweithredu LDHTC+Cymru[2]
- Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru[3]
- Cynllun Gweithredu Gweithredu ar Anabledd[4]

Deallwn fod y materion a amlygir yn y dogfennau uchod yn symptomau problemau cymhleth, yn aml ar lefel gymdeithasol. Ni all un sefydliad eu datrys ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r trydydd sector gydweithio. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid i ni weithio gyda ac wrth ochr cymunedau i gynhyrchu datrysiadau cynaliadwy ar y cyd.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd croestoriadedd. Mae gan lawer o bobl fwy nag un nodwedd warchodedig ac mae systemau anghydraddoldeb yn seiliedig ar rywedd, hil, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, anabledd, dosbarth a mathau eraill o wahaniaethu yn croesdorri.

Pan ddarllenwch y ddogfen hon, byddwch yn gweld tystiolaeth sy'n cyfeirio at grwpiau lluosog ond dim ond mewn un adran y caiff ei dangos. Gwnaethom hyn i geisiom cadw'r

ddogfen mor gryno ag sydd modd, ond sylweddolwn wrth gynnig camau gweithredu fod yn rhaid rhoi ystyriaeth i faterion sy’n gorgyffwrdd.

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gweithio'n galed i ddatgarboneiddio ein sir. Byddwn yn gweithio gyda ac wrth ochr ein cymunedau i gyflawni hyn[5].

Mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi ac yn gwneud y defnydd gorau o alluoedd a chyfraniadau pawb yn ein cymunedau, beth bynnag eu hoedran, rhywedd, hil, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw un o'r nodweddion eraill sy'n ei gwneud pwy ydym.

Yr amcanion a'r camau gweithredu hyn a amlinellir ar y tudalennau nesaf yw'r pethau yr ydym yn ymroddedig i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf i sicrhau y gall pawb yn y sir gyflawni eu potensial llawn.

- **Amcan 1:** Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- **Amcan 2:** Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
- **Amcan 3:** Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynol.
- **Amcan 4:** Ehangu ein darpariaeth o wasanaethau cymunedol sy'n ymestyn disgwyliad oes iach pobl.
- **Amcan 5:** Sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch i'r cyhoedd.
- **Amcan 6:** Sicrhau fod gennym weithlu amrywiol a gweithle hollol gynhwysol •
- **Amcan 7:** Gostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ar gyfer pob amcan, rydym yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd a'r canlyniad y ceisiwn ei gyflawni. Caiff cynnydd ei fesur yn defnyddio ystod o ddeilliannau a mesurau deilliant. Caiff fframwaith perfformiad llawn ei ddatblygu a rhoddir adroddiad blynyddol ar y cynnydd i Bwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg y cyngor mewn adroddiad monitro blynyddol.

# 1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

Pam fod hyn yn bwysig

Bydd y profiadau a gawn yn ein plentyndod yn cael effaith enfawr ar sut ydym yn tyfu a datblygu, ein iechyd corfforol a meddyliol a'n meddyliau, teimladau ac ymddygiad. Dengys ymchwil ei fod yn gysylltiedig gyda pherfformiad yn yr ysgol, deilliannau gwaith y dyfodol ac yn arwain at incwm uwch, iechyd gwell gydol oes a disgwyliad oes hirach.

Tystiolaeth

- Dengys ymchwil fod y mil diwrnod cyntaf o feichiogrwydd hyd at ddwy oed yn cynnig ffenestr cyfle hollbwysig i effeithio ar ddeilliannau'r dyfodol ar gyfer plant.
- Mae pwysau geni isel yn rhagfynegydd nifer o ddeilliannau negyddol yn cynnwys disgwyliad oes byrrach a chyrhaeddiad ysgol is. Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o fabanod pwysau geni isel yng Nghymru, 4.9% o gymharu gyda chyfartaledd Cymru o 6.1%.
- Mae problemau gydag argaeledd cyfyngedig o ddarparwyr blynyddoedd cynnar ar draws Gwent. Collodd Sir Fynwy 305 o fannau gofal plant, 9% o'r cyfanswm, ers 2020.
- Mae 27% o blant yn Sir Fynwy yn byw mewn tlodi. Mae hyn yr un fath â chyfartaledd y Deyrnas Unedig ond yn is na chyfartaledd Cymru o 34%.
- Yng Nghymru mae ystod o wahaniaethau rhwng cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig ar y cyfnod sylfaen mewn addysg gynradd.
- Mae plant nad ydynt yn uniaethu fel naill ai bachgen na merch yn fwy tebygol o gael eu bwlio na'r rhai sy'n uniaethu fel naill ai fachgen neu ferch.
- Bu cynnydd o 89% rhwng 2020-21 a 2021-22 mewn atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yn Sir Fynwy. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd o 39% ar draws Cymru. Cymru hefyd sydd â'r gyfradd uchaf o blith unrhyw un o genhedloedd y Deyrnas Unedig.
- Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng ers y pandemig, rydym hefyd gwedi gweld cynnydd yn nifer gwaharddiadau o'r ysgol.
- Mae gan blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim lefelau is o gyrhaeddiad na'r rhai nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu Gredo | |
| Anabledd | x | Rhyw | |
| Ailbennu Rhywedd | x | Cyfeiriadedd Rhywiol | x |
| Priodas neu Bartneriaeth Sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus a'r GIG i ymwreiddio camau gweithredu i ostwng anghydraddoldeb iechyd mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar. | Cefnogi plant , pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant | Rheolwr Partneriaethau Strategol | Mawrth 2028 |
| Cynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol am ddim gan ganolbwyntio ar yr ysgolion hynny lle mae'r angen mwyaf. | Dim plentyn yn newynnog yn yr ysgol. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Rhagfyr 2024 |
| Gweithredu i ostwng tlodi yn ein hysgolion drwy ostwng cost y diwrnod ysgol, gan sylweddoli fod pob punt yn cyfrif i lawer o deuluoedd. | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Mawrth 2025 |
| Sicrhau fod pob ysgol yn Sir Fynwy yn dynodi uwch arweinydd sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi a chodi | Cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion bregus i gyflawni eu potensial llawn. | Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc | Rhagfyr 2024 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- |
| cyflawniad dysgwyr agored i niwed. | | | |
| Datblygu strategaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a phecynnau cymorth ac adnoddau cysylltiedig, gyda ffocws ar gefnogi ymddygiad cadarnhaol. | Cefnogi dysgwyr agored i niwed i gyflawni eu potensial llawn. | Pennaeth Cynhwysiant | Mawrth 2025 |
| Parhau i gymryd dull gweithredu ataliol i ostwng absenoldeb mewn ysgolion drwy ddatblygu dulliau Osgoi Ysgol Seiliedig ar Emosiwn ac Ystyriol o Drawma mewn ysgolion | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu potensial llawn | Pennaeth Cynhwysiant | Parhaus |
| Gwella mynediad i, a defnydd, o ddata a gasglwyd gan ysgolion yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu, a rhoi cymorth. | Data gwell i roi cymorth i blant a phobl ifanc i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd ysgol. | Pennaeth Cynhwysiant | Rhagfyr 2025 |
| Darparu addysg gynhwysol o LHDTC+ drwy adran Cydberthynas ac Addysg Rhywioldeb y Cwricwlwm i Cymru. | Plant, pobl ifanc a dysgwyr agored i niwed yn cael eu cefnogi'n gynhwysol. | Pennaeth Cynhwysiant | Parhaus |
| Gweithio gydag eraill i gynyddu darpariaeth gofal plant ac ansawdd mewn ardaloedd o | Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu llesiant. | Pennaeth Cyflawni ac Ymestyn | Mawrth 2024 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| amddifadedd uwch gyda'r nod o ostwng anghydraddoldeb. | | | |

## 2. Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb

Pam fod hyn yn bwysig

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn treulio rhan sylweddol o'u hamser yn y gwaith ac mae hyn yn rhan sylweddol o'u bywyd. Mae'r swydd a wnaiff pobl, a faint o werthfawrogiad a deimlant, yn ffactor rymus wrth benderfynu ar eu hansawdd bywyd. Yn ogystal â'r effeithiau ariannol amlwg, gall bod yn ddi-waith gael effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd a llesant. Mae'n cynyddu marwoldeb ac yn sbardun sylweddol mewn anghydraddoldeb mewn iechyd corfforol a meddyliol.

Tystiolaeth

- Rhwng mis Medi 2022 a mis Ionawr 2023, dywedodd 92% o bobl yng Nghymru fod eu costau byw wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae pobl anabl yn gyson llawer llai tebygol o gael eu cyflogi na phobl heb fod yn anabl. Gostyngodd cyflogaeth pobl anabl yn Sir Fynwy o 60% yn 2014 i 51% yn 2023.
- Ar draws Cymru, mae canolrif enillion fesul awr gweithwyr anabl wedi aros yn ei unfan tra bu twf yn enillion gweithwyr heb fod yn anabl.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac amddifadedd materol difrifol. Fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol yn y gyfran o bobl anabl yn byw mewn amddifadedd materol difrifol, o 40.5% yn 2015/16 i 24.3% yn 2019/20
- Yng Nghymru, mae gweithwyr lleiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr (8.0%) na gweithwyr Prydeinig Gwyn (14.2%). Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn mewn cyflogaeth ansicr wedi gostwng dros amser.
- Mae oedolion hoyw a lesbian yn fwy tebygol o gael eu cyflogi (67%) nag oedolion sy'n uniaethu fel heterorywiol (55%), deurywiol (52%) neu unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall.
- Canfu cyfrifiad 2021 fod y cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn uwch ymysg unigolion y mae eu hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd ar eu cyfer adeg eu geni (54.5%) nac ymysg rhai yr oedd eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar eu cyfer adeg eu geni.
- Ar 39% mae'r gyfran o fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser yng Nghymru yn llawer uwch na dynion sy'n gweithio yn rhan-amser, sydd yn 12%.
- Gall cymunedau gwledig fod yn fwy agored i dlodi nag ardaloedd trefol gyda thlodi tanwydd a mynediad i wasanaethau yn broblem neilltuol.

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

<u>Gweithredoedd</u>

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Annog cwmnïau lleol i ddod yn gyflogwyr gydag achrediad hyderus o ran anabledd. | Pobl anabl â gwell mynediad i gyflogaeth.<br>Mwy o gwmnïau lleol gyda statws hyder anabledd. | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mawrth 2028 |
| Sicrhau bod ein dogfennau tendr yn annog a hyrwyddo amrywiaeth ymysg ein cyflenwyr a chontractwyr. | Cefnogi amrywiaeth o fewn y gweithle | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Mawrth 2025 |
| Darparu rhaglenni cyflogadwyedd a meithrin partneriaethau gyda chyflogwyr a busnesau lleol. | Cefnogir amrywiaeth o fewn y gweithle a gyda phartneriaid | Pennaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Mawrth 2026 |
| Cadw rhwydwaith gynaliadwy a hygyrch o fysus cyhoeddus (yn cynnwys cludiant cymunedol) sy'n gwasanaethu canol ein trefi. | Cadw hygyrchedd i ganol trefi | Pennaeth Datgarboneiddio, Trafnidiaeth a Gwasanaethau Cymorth | Parhaus |
| Cynnig cyfleoedd | Cefnogir amrywiaeth o fewn y | Pennaeth | Mawrth |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| rhwydweithio, cyfeirio a, lle'n briodol, gyllid grant i gefnogi arallgyfeirio busnesau gwledig. | gweithle a gyda phartneriaid | Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | 2028 |
| Darparu cefnogaeth ar gyfer creu 6,240 o gyfleoedd swydd cynaliadwy. | Mwy o bobl â mynediad i gyfleoedd cyflogaeth | Pennaeth Creu Lle, Adfywio, Priffyrdd a Llifogydd | Rhagfyr 2033 |

## 3. Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynus

Pam fod hyn yn bwysig

Gellir tanseilio cydlyniaeth gymunedol os oes gan rai grwpiau brofiadau neu ddeilliannau gwahanol i eraill. Mae hyn yn neilltuol o wir pan fo hynny fel canlyniad i nodweddion gwarchodedig grŵp. Gall y materion sy'n tanseilio cydlyniaeth fod â gwreiddiau dwfn. Rydym eisiau creu a chadw'r amodau lle gall cymunedau lleol ffynnu.

Tystiolaeth

- Teimlai 73% o bobl oedd yn uniaethu fel heterorywiol eu bod yn perthyn i'w hardal leol, o gymharu â 63% o'r rhai nad oedd yn uniaethu fel heterorywiol;
- Roedd 83% o ddynion yn teimlo'n ddiogel pan oeddent: adref, yn cerdded, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn eu car, o gymharu gyda 58% o fenywod;
- Pobl Sipsi, Roma a Theithwyr sydd â'r deilliannau gwaethaf o unrhyw grŵp ethnig yng Nghymru ar draws ystod enfawr o feysydd yn cynnwys addysg, iechyd, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol a throseddau casineb;
- Yn 2021/22 cofnododd heddluoedd yng Nghymru 6,295 trosedd casineb, cynnydd o 4,654 yn 2020/21;
- Mae'r gyfran o breswylwyr Sir Fynwy sy'n uniaethu â bod o grŵp ethnig Asiaidd yn 1.3, o grŵp ethnig Du yn 0.2%, o grŵp ethnig cymysg neu luosog yn 1.2%; o grŵp gwyn roedd yn 96.7% gyda grwpiau eraill yn ffurfio 0.3%[6];
- Mae'r gyfran o bobl anabl a ddywedodd iddynt brofi cam-drin domestig yn y 12 mis diwethaf tua teirgwaith yn fwy na hynny a adroddwyd gan bobl heb fod yn anabl;
- Dengys ymchwil fod gofal plant yn parhau'n rhwystr neilltuol a digyfnewid i gael mynediad i ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), yn neilltuol ar gyfer menywod sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.
- Rhwng 2011 a 2021, cynyddodd oedran cyfartalog (canolrif) poblogaeth Sir Fynwy gan bedair blynedd, o 45 i 49 mlwydd oed;
- Rhagwelir y bydd poblogaeth 65 oed a throsodd Sir Fynwy yn cynyddu gan 41%, ac yn fwyaf arwyddocaol, bydd cynnydd o 96% yn y bobl 85 oed a throsodd erbyn 2043.

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Dathlu amrywiaeth a chynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth; yn cynnwys dyddiadau allweddol yn y calendr tebyg i'r Mis Hanes Du a Ramadan. | Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn y gymuned | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Blynyddol |
| Cefnogi a galluogi creu grwpiau cymunedol i sicrhau fod gan bawb lais ac y medrant gymryd rhan a helpu i lunio dyfodol ein sir. | Cynyddu amrywiaeth mewn ymgynghoriad | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br><br>Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol | Parhaus |
| Dod yn sir gyfeillgar i oedran a cheisio achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd. | Caiff pobl hŷn eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant<br><br>Achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd | Swyddog Partneriaethau (Cymunedau Cyfeillgar i Oedran) | Mawrth 2025 |
| Cefnogi datblygu fforwm ar gyfer pobl anabl. | Pobl anabl â fforwm i lywio gwneud polisi a darpariaeth gwasanaeth | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br><br>Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol | Mawrth 2026 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a thrais domestig a rhywiol. | Menywod yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Parhaus |
| Sicrhau fod gennym lwybr clir ar gyfer y rhai heb unrhyw fynediad i gyllid cyhoeddus. | Cymorth a chyngor ar gael i rai heb hawl i gyllid cyhoeddus. | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Mawrth 2026 |
| Gwella ein defnydd o ddadansoddiad data a theledu cylch cyfyng i atal troseddau a rhoi tystiolaeth i'r heddlu pan fo troseddau yn digwydd. | Pobl yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Mawrth 2025 |
| Gwella cymorth tai ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a grwpiau eraill ar y cyrion. | Cymunedau ar y cyrion yn derbyn cymorth tai | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau<br>Rheolwr Tai a Chymunedau | Mawrth 2025 |
| Cael achrediad fel sir noddfa a man noddfa ar gyfer mudwyr LHDTC+. | Sir Fynwy yn sir nodded.<br>Achrediad fel sir nodded ar gyfer mewnfudwyr LHDTC+ | Rheolwr Partneriaeth Strategol | Mehefin 2024 |
| Mynd i'r afael â tlodi mislif a hyrwyddo urddas mislif. | Pobl  â mynediad i gynnyrch mislif fforddiadwy. | Arweinydd Datblygu Llesiant Cymunedol | Parhaus |

## 4. Ehangu ein darpariaeth o wasanaethau cymunedol sy'n ymestyn disgwyliad oes iach pobl

Pam fod hyn yn bwysig

Mae anghydraddoldeb iechyd yn aml yn ganlyniad anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae gwahaniaethau enfawr mewn disgwyliad oes iach rhwng pobl sy'n byw mewn gwahanol gymunedau ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol clir mewn ymddygiad tebyg i fwyta, ymarfer ac yfed. Ynghyd â hyn, mae costau cynyddol mewn tanwydd a thai yn gostwng ymhellach faint o arian sydd ar gael ar gyfer diet iach.

Tystiolaeth

- Y disgwyliad oes iach ar gyfer gwrywod yw 69.8 mlynedd, sef yr uchaf yng Nghymru, a 70.7 mlynedd ar gyfer benywod;
- Disgwylir i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus yn Sir Fynwy fyw yn hirach na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus, ar 6.3 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer gwrywod a 3.6 mlynedd ar gyfer benywod. Yn yr un modd, mae'r rhai yn y rhannau lleiaf amddifadus o Sir Fynwy yn debygol o fyw mewn iechyd da am fwy, gan gyfartaledd o 10.1 mlynedd ar gyfer gwrywod a 11.1 mlynedd ar gyfer benywod;
- Byddai'n rhaid i deuluoedd gyda'r 10% isaf o incwm aelwyd orfod gwario bron drichwarter eu holl incwm (ar ôl costau tai) i fforddio'r Plât Bwyta'n Iach a argymhellir gan y GIG;
- Yn 2021/22, roedd 42% o oedolion gyda salwch hirsefydlog, anabledd neu eiddilwch yn cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd chwaraeon neu weithgaredd corfforol o gymharu â 68% nad oedd â salwch hirsefydlog, anabledd neu eiddilwch.

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | x | Yr Iaith Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | x | Tlodi | x |
| Hil | x | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod seilwaith cerdded a seiclo newydd yn cyrraedd yr ardaloedd gyda'r cyfraddau isaf o weithgaredd corfforol. | Cefnogi pobl yn eu gweithgaredd corfforol | Rheolwr Teithio Llesol, Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Mawrth 2027 |
| Parhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd i bobl fod yn iach ac egnïol yn cynnwys Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. | Cefnogi pobl gyda'u gweithgaredd corfforol | Prif Swyddog – Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant | Parhaus |
| Cefnogi grwpiau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb iechyd a mynediad i wybodaeth yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus | Gostwng anghydraddoldeb iechyd drwy fynediad i wybodaeth | Prif Swyddog – Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant<br><br>Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Parhaus |
| Cefnogi grwpiau cdymunedol i fynd i'r afael ag ynysigrwydd ac unigrwydd gyda ffocws ar gymunedau gwledig | Gostwng effeithiau ynysigrwydd ac unigrwydd | Rheolwr Datblygu a Darpariaeth Cymunedol<br><br>Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Parhaus |

# 5. Sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch i'r cyhoedd

Pam fod hyn yn bwysig

Mae gan y gwasanaethau cyhoeddus ran hanfodol ym mywydau degau o filoedd o bobl dydd. Mae llawer o bobl yn wynebu rhwystrau yn cael mynediad i'r pethau maent eu hangen. Gall hyn fod yn ffisegol, fel adeiladau heb fod â thoiledau hygyrch, gallant gael eu hachosi gan sut y cyflwynwn wybodaeth fel na all pawb ei deall, neu gallai fod yn agwedd pobl at wahaniaeth.

Tystiolaeth

- Dim ond 24% o bobl dros 70 oed sy'n debyg o ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi eu hiechyd o gymharu â 87% o bobl 16-19 oed.
- Mae amserau teithiau dychwel cyhoeddus a phreifat i wasanaethau tebyg i feddygfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn Sir Fynwy yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob categori heblaw un[8];
- Dynodwyd bod 7.3% o breswylwyr Sir Fynwy yn anabl a gyda llawer o gyfyngiadau[9];
- Roedd pobl ifanc sy'n ofalwyr yn fwy tebygol nag eraill o'u hoedran i fyw mewn ardaloedd amddifadus a phrofi tarfu ar eu haddysg.[10]

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | x | Rhyw | |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Parhau i sicrhau fod ein adeiladau cyhoeddus yn hygyrch ac addas i bob defnyddiwr gwasanaeth | Adeiladau yn hollol hygyrch i bawb. | Pennaeth Gwasanaethau Landlord | Parhaus |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Gweithio gydag eraill i wella darpariaeth hygyrch yng nghanol ein trefi. | Toiledau trefi yn hygyrch i bawb | Pennaeth Gwasanaethau Landlord | Mawrth 2028 |
| Sicrhau fod pob cyfathrebiad yn hygyrch, yn cynnwys cydnabod anghenion pobl niwroamrywiol. | Pawb yn medru cael mynediad i gyfathrebiadau | Rheolwr Teithio Llesol, Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Mawrth 2025 |
| Sicrhau ein bod yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ac ailgyflunio gwasanaethau presennol. | Dileu rhwystrau ar gyfer pobl anabl<br>Ymwreiddio Model Cymdeithasol Anabledd ar draws y sefydliad | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd | Mawrth 2025 |
| Hyrwyddo cyrsiau i godi sgiliau a llythrennedd digidol ymysg pob grŵp drwy gyrsiau addysg gymunedol a'n hybiau cymunedol. | Gwella hygyrchedd drwy sgiliau digidol | Pennaeth Dylunio Digidol ac Arloesedd | Mawrth 2028 |
| Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y cyngor i wella mynediad. | Siaradwyr Cymraeg yn medru cael mynediad llawn i'w gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Mawrth 2028 |
| Hyrwyddo cynnig gweithredol dewis iaith mewn gofal cymdeithasol. | Pobl yn medru cael mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Mawrth 2025 |
| Sicrhau fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ar gael i'r holl staff a | Gwella gwneud penderfyniadau cynhwysol | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Mawrth 2025 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| chynghorwyr i wella gwneud penderfyniadau cynhwysol. | | | |
| Adolygu proses Asesu Effaith Integredig | Y broses Asesu Effaith Integredig yn addas i'r diben ac wedi ei hymwreiddio | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Rhagfyr 2024 |

# 6. Sicrhau fod gennym weithlu amrywio a gweithle hollol gynhwysol

Pam fod hyn yn bwysig

Pan fydd cyflogeion yn hyderus y cânt eu trin yn deg beth bynnag eu hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran, maent yn fwy tebygol o fod yn hapus a chynhyrchiol yn eu swyddi. Mae bod â gweithle cynhwysol a hygyrch yn helpu i ddenu cronfa amrywiol o dalent a sicrhau y gall y sefydliad gadw'r dalent amrywiol sydd gennym eisoes.

Tystiolaeth

- 73% o gyflogeion y cyngor yn fenywod
- 2% o'r gweithlu wedi nodi fod ganddynt anabledd
- (Mae'r data ar ethnigrwydd wrthi'n cael ei ddilysu cyn fersiwn y Cyngor).

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | x | Crefydd neu gredo | x |
| Anabledd | x | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | x | Cyfeiriadedd rhywiol | x |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | x |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | |
| Hil | x | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn cyrraedd statws lefel 2 hyderus o ran anabledd o fewn blwyddyn gyntaf y cynllun ac yna weithio tuag at lefel 3. | Sicrhau Lefel 2 Hyderus o ran Anabledd | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mehefin 2024 |
| Rhoi mesurau ar waith i gefnogi a darparu ar gyfer anghenion cydweithwyr niwroamrywiol. | Cefnogi cydweithwyr niwrowahanol o fewn y gweithle | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Parhaus |
| Mynd ati i dargedu cyfleoedd recriwtio at grwpiau a gaiff eu tangynrychioli yn ein gweithlu. | Grwpiau a dangynrychiolir â mwy o gynrychoilaeth gyda'r gweithlu | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mawrth 2025 |
| Mynd i'r afael â'r bylchau data sy'n bodoli ar draws pob nodwedd warchodedig (yn arbennig ethnigrwydd ac anabledd) a dadgyfuno data ar draws meysydd polisi. | Gostwng bylchau data i roi gwell gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mawrth 2025 |
| Mynediad i hyfforddiant cynhwysiant ar gyfer yr holl staff i sicrhau ymwybyddiaeth o gynhwysiant ac amrywiaeth o fewn | Dathlu amrywiaeth o fewn y gweithlu | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rhagfyr 2024 |

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| y gweithle | | | |
| Datblygu rhwydweithiau staff i godi ymwybyddiaeth o grwpiau a dangynrychiolir yny gweithle | Datblygu rhwydweithiau staff | Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Mawrth 2025 |

# 7. Gostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Pam fod hyn yn bwysig

Mae gan y bwlch cyflog rhwng y rhywiau oblygiadau eang i gymdeithas. Mae'n effeithio ar gyfraniadau pensiwn menywod ac yn arwain at gyfraddau uwch o dlodi ac allgau cymdeithasol yn nes ymlaen mewn bywyd.

Tystiolaeth

- Menywod yw pennaeth 89.1% o aelwydydd un rhiant yng Nghymru ac yn fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi. [11]
- Mae'r gyfran o fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser yng Nghymru yn parhau'n llawer uwch (39.0% yn 2022) na'r gyfran o ddynion (12.1%)
- Mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn parhau, gan y caiff menywod eu talu 14.1% yn llai ar gyfartaledd na dynion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn wedi gostwng ychydig rhwng 2010 a 2019.
- Mae tâl wythnosol cyfartalog menywod yn Sir Fynwy yn £599 o gymharu â £633 ar gyfer gwrywod.
- Dengys ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod anghenion gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn cyflogaeth ac addysg.

Mae hyn yn gysylltiedig â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | | Crefydd neu gredo | |
| Anabledd | | Rhyw | x |
| Ailbennu rhywedd | | Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Yr Iaith Gymraeg | |
| Beichiogrwydd neu famolaeth | | Tlodi | x |
| Hil | | | |

Gweithredoedd

| Gweithred | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Sicrhau nad yw llwybrau gyrfa yn cyfyngu gallu staff rhan-amser i symud ymlaen i swyddi uwch. | Ni chaiff staff rhan-amser eu cyfyngu rhag symud ymlaen i swyddi uwch. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Mawrth 2028 |
| Parhau i weithredu cynllun tryloyw i werthuso swyddi er mwyn sicrhau cyfraddau tâl cyfartal. | Sicrhau cyfraddau tâl teg | Pennaeth Adnoddau Dynol | Parhaus |
| Cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gwerthuso'r rhesymau am y gwahaniaeth mewn tâl ac ymchwilio camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â nhw. | Cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ymchwilio camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn | Pennaeth Adnoddau Dynol | Blynyddol |

# Atodiad 1: Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad o bedair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2024 ar y dystiolaeth, yr amcanion a’r camau gweithredu a gynigwyd. Yn ogystal ag arolwg gwefan, anfonwyd yr ymgynghoriad at grwpiau lleol gydag aelodau gyda nodweddion gwarchodedig a ddiffiniwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Roedd lefel yr ymatebion yn gymharol isel. Roedd y rhai a wnaeth ymateb gan bennaf yn gefnogol i’r amcanion a’r camau gweithredu a gynigiwyd. Cafodd rhai sylwadau eu mynegi hefyd oedd yn dangos barn glir ar hunaniaeth rhywedd.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio tystiolaeth o ymgynghoriadau eraill yn cynnwys gwaith a wnaed i ddatblygu asesiad llesiant ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a datblygu Sir Fynwy gyfeillgar i oedran. Bu llawer o ymateb i’r ymgynghoriad ar y pwnc diwethaf hwn. Roedd y materion allweddol a ddaeth i’r amlwg yn cynnwys: mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, parcio yng nghanol trefi, cyfleusterau hygyrch, gwell tai ar gyfer anghenion pobl hŷn, mynediad i a dealltwriaeth o dechnoleg ddigidol a’r gwahaniaeth mewn gofal iechyd, yn dibynnu ar ble rydych yn byw.

Manteisiodd y cynllun drafft cydraddoldeb strategol o gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Pobl y Cyngor a helpodd i lunio’r fersiwn terfynol. Roedd adborth yn cynnwys yr angen i sicrhau fod y cynllun yn adlewyrchu’n llawn yr heriau economaidd-gymdeithasol sy’n wynebu cymunedau gwledig a’r heriau sy’n wynebu menywod y mae cynnydd yn yr oedran pensiwn gwladol wedi effeithio arnynt, y cyfeirir atynt yn aml fel grŵp WASPI. Cafodd sylwadau hefyd ei mynegi am bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng rhyw a rhywedd.

Cafodd y rhain eu defnyddio i lywio’r cynllun terfynol. Gall y cynbllun esblygu wrth i fwy o waith gael ei wneud gyda grwpiau cymunedol i ddeall y materion sy’n eu hwynebu.

# [1] AutoDial 2: Cyfeiriadau

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-gwrth-hiliaeth-cymru

[2] https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru

[3] https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau

[4] https://www.llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd:-hawl-i-fyw’n-annibynnol-fframwaith-a-chynllungweithredu

[5] Cyngor Sir Fynwy, Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28

[6] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021 https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000021/

[7] Ynghyd ag aelodau eraill Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, rydym yn ymroddedig i ddod yn Ranbarth Marmot. Mae manylion egwyddorion Marmot ar gael yn Adeiladu Gwent Decach (2023). https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/building-a-fairer-gwent-improving-health-equityand-the-social-determinants/main-report.pdf

[8] Mynegai Amddifadledd Lluosog Cymru 2019 http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-indexmultipledeprivation/?lang=en

[9] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000021/ [10] Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru’n Decach? (Ibid) [11] Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru’n Decach? https://www.equalityhumanrights.com/our-work/equality-and-human-rights-monitor/equality-and-humanrights-monitor-2023-wales-fairer